

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

29 EBRILL 2019

**CODI YMWHYBYDDIAETH O ACHLYSURON CYMRAEG/DWYIEITHOG
LLEOL A CHENEDLAETHOL AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y
CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA
DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

Awdur(on): Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111) Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n darparu gwybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ynglŷn â'r cynllun arfaethedig i hyrwyddo achlysuron lleol a chenedlaethol Cymraeg/dwyieithog gwahanol ar y cyfryngau cymdeithasol bob chwarter. Byddai hyn yn rhan o Gynllun Gweithredu 5 mlynedd y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Cymeradwyo'r ymgyrchoedd a'r amserlen weithredu sydd wedi'i hamlinellu yn Atodiad 1 ac Atodiad 2;
- 2.3 Ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth;

3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi strategaeth i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac i gyhoeddi'r strategaeth ar wefan y Cyngor erbyn 30 Hydref 2016.
- 3.2 Mae'r strategaeth 5 mlynedd yn amlinellu sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal.
- 3.3 Bydd rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r ymgyrchoedd yma yn dangos ymrwymiad y Cyngor i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ei gyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â dangos ei ymrwymiad i hyrwyddo gwaith partneriaid, sy'n annatod er mwyn sicrhau bod y strategaeth pum mlynedd yn llwyddiannus.
- 3.4 Yn ogystal â hynny, bydd y gwaith hyrwyddo yma'n adlewyrchu'n dda ar uchelgais a chais swyddogol y Cyngor i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2022 yn unol â'i ddatganiad o ddiddordeb swyddogol a gyflwynwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y cytunwyd ym mis Mehefin 2017.
- 3.5 Yn ogystal â hynny, o ganlyniad i natur addysgiadol yr ymgyrchoedd, byddai'r Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r adnoddau sydd eisoes wedi'u rhannu gyda ni i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

4. CEFNDIR

- 4.1 Cafodd Cynllun Gweithredu ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg ei ddatblygu o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i nodi o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg 2011, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor o fewn yr amser gofynnol.
- 4.2 Cafodd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu eu datblygu yn ystod 2016 ar y cyd â Sbectrwm, sef, sefydliad sy'n arbenigo mewn cynllunio iaith; Menter Iaith ac aelodau o'r Fforwm Iaith, Gwasanaethau'r Cyngor a Chynghorwyr.
- 4.3 Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn canolbwyntio ar y canlynol:
 - cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
 - cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus

- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd y De.
- 4.4 Yn ogystal â hynny, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol, a pha mor gost-ffeithiol ydyn nhw, wrth ymgysylltu â thrigolion. Mae'r cyfryngau cymdeithasol bellach yn cyfeirio rhagor o draffig at wefanau penodol na Google. O ganlyniad i hynny, mae hi'n amlwg bod y llwyfannau yma'n adnoddau grymus iawn ar gyfer marchnata, rhwydweithio a hysbysebu. Mae modd iddyn nhw gyrraedd nifer helaeth o bobl mewn modd cyflym, syml ac effeithiol, yn ogystal â galluogi sefydliadau i dargedu cynulleidfaoedd penodol ac ymgysylltu â nhw.
- 4.5 O ganlyniad i hynny, mae staff Uned Gwasanaethau'r Gymraeg, y Cabinet a Swyddfa'r Wasg wedi bod yn defnyddio cyfrifon y Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol i hybu achlysuron Cymraeg a dwyieithog ers peth amser. Serch hynny, dydyn ni ddim wedi dilyn unrhyw broses ffurfiol y mae modd ei defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn rhan o'n dyletswyddau statudol.
- 4.5 Ar ôl gweithio gyda swyddogion o'r Cabinet a Swyddfa'r Wasg, cytunon ni y byddai datblygu proses ffurfiol yn rhoi cyfle i ni ddangos tystiolaeth o'n gwaith da i Gomisiynydd y Gymraeg. Y bwriad yw hybu pedwar achlysur penodol bob blwyddyn ariannol (un bob chwarter) i ddechrau. Byddai'r ymgyrchoedd cyntaf yn dechrau yn 2019/2020 ac yn canolbwyntio ar y canlynol, yn seiliedig ar eu pwysigrwydd fel achlysuron cydnabyddedig yng Nghymru:
- Eisteddfod yr Urdd - Chwarter 1
 - Dydd Owain Glyndŵr - Chwarter 2
 - Dydd Shw'mae – Chwarter 3
 - Dydd Gŵyl Dewi – Chwarter 4
- 4.6 Mae'r manylion ynglŷn â'r ymgyrchoedd arfaethedig wedi'u nodi yn Atodiad 1.

5. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 5.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

6 CYFRANNU AC YMGYNHORI

- 6.1 Cafodd y Cynllun Gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth ei baratoi ar ôl ymgynghori â thrigolion ac mae eu sylwadau wedi llunio'r cynnwys.

7 GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 7.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Caiff costau staffio a chostau adnoddau bychain eu hymgorffori'n naturiol gan gyllidebau meysydd gwasanaeth sy'n bodoli eisoes. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

8 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- 8.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

9. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 9.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.
- 9.2 Mae'r adroddiad yma'n tynnu sylw at yr angen i wneud rhagor o ran codi ymwybyddiaeth o achlysuron Cymraeg/dwyieithog, ac mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn ceisio cydweithio â'i bartneriaid i gyflawni'r nodau hyn sydd wedi'u hamlinellu yn y strategaeth 5 mlynedd.
- 9.3 Mae cynnwys yr adroddiad yn gysylltiedig yn uniongyrchol â Nod 7 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd rhoi'r Strategaeth ar waith yn gefn i normaleiddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a thros amser, yn helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir wrth iddyn nhw ymgysylltu â rhagor o achlysuron Cymraeg/dwyieithog. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os dyna'u dymuniad.
- 9.4 Mae'r ymgyrch yn rhan o ddull gweithredu mwy hirdymor sydd wedi'i fabwysiadu gan Strategaeth Hybu'r Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y

siaradwyr Cymraeg yn y sir, ac mae hyn yn deillio o waith ar y cyd rhwng y Cyngor a phartneriaid eraill, yn ogystal â'r gymuned. Bydd hyn yn arwain at ymgorffori gweithgareddau Cymraeg o fewn cynlluniau marchnata ac achlysuron ehangach ac yn ein helpu ni i ymgysylltu â rhagor o siaradwyr Cymraeg, gan atal nifer y bobl sy'n defnyddio'r iaith rhag lleihau.

10 CASGLIAD

- 10.1 Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid flaenoriaethu rhai meysydd polisi allweddol er mwyn cymryd camau gweithredu, a gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Gymraeg.
- 10.2 Un maes allweddol yw hybu a hwyluso achlysuron Cymraeg a dwyieithog. Mae modd i'r Cyngor wneud hyn mewn modd effeithlon ac effeithiol drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel prif fodd o ymgysylltu â thrigolion ynglŷn â materion o'r fath. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ddangos ei ymrwymiad drwy sicrhau ei fod e'n rhannu gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg o greu Cymru lle mae modd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol.

Gwybodaeth Arall:

Pwyllgor Craffu Perthnasol:

Swyddog Cyswllt - Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

ATODIAD 1 – BRASLUN O'R YMGYRCHOEDD AR GYFER POB CHWARTER
2019/2020

Ymgyrchoedd 2018–2019	
Cyfnod	Chwarter 1
Dyddiad	27 Mai 2019 > 1 Mehefin 2019
Enw'r Ymgyrch	Pob lwc i Ysgolion Rhondda Cynon Taf sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd / Dathlu Llwyddiant
Gwybodaeth Gefndirol	Eisteddfod yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid teithiol mwyaf Ewrop, sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Bydd yn cael ei chynnal yn ystod wythnos y Sulgwyn unwaith eto eleni. Mae'r Eisteddfod yn ŵyl Gymraeg gystadleuol, lle mae dros 15,000 o blant a phobl ifainc dan 25 oed yn cystadlu yn ystod yr wythnos mewn cystadlaethau amrywiol, o ganu, dawnsio a pherfformio i gelfyddyd, chwaraeon a choginio. Maen nhw wedi ennill eu lle i gystadlu yn yr ŵyl yn dilyn eisteddfodau cylch a rhanbarthol sy'n cael eu cynnal yn ystod misoedd y gwanwyn cyn yr Eisteddfod – mae hyn yn golygu eu bod nhw wedi dod i'r brig yn erbyn tua 40,000 o gystadleuwyr ledled Cymru. Er bod hon yn ŵyl gystadleuol Gymraeg ei hiaith, mae'r cystadleuwyr yn dod o gefndiroedd addysgol cyfrwng Gymraeg a Saesneg. Mae'r cystadlaethau yn cael eu cynnal yn y Pafiliwn – dyma ganolbwynt yr Eisteddfod, gyda 1,800 o seddi. O amgylch y Pafiliwn, ar y Maes, fe welwch chi gannoedd o stondinau lliwgar o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, sy'n cynnig ystod o weithgareddau i'r teulu cyfan – o feicio, dringo a sesiynau chwaraeon i ffair hwyl, bandiau byw a sioeau plant gyda rhai cymeriadau teledu enwog. Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Beaufort Research, cytunodd 97% o'r ymwelwyr bod ymweld â'r Eisteddfod yn ddiwrnod gwych i'r teulu. Mae wythnos Eisteddfod yr Urdd yn goron ar dair blynedd o waith caled gan wirfoddolwyr lleol sydd nid yn unig yn trefnu'r achlysur yn lleol (gyda chymorth staff canolog yr Urdd), ond sydd hefyd yn codi cannoedd o filoedd o bunnoedd i gyfrannu at gost cynnal yr ŵyl. Mae'n denu llawer o sylw gan y wasg gan gynnwys teledu, radio a phapurau newydd lleol a chenedlaethol. Mae 'gwaddol' yr Eisteddfod, ei chyfraniad at dreftadaeth Gymraeg yr ardal sy'n ei chynnal, a'i ffyniant yn y dyfodol, yn amhrisiadwy o safbwynt diwylliannol ac ieithyddol. O ganlyniad mae rhanbarthau Cymru yn cystadlu â'i gilydd i gynnal yr ŵyl. Mae Eisteddfod yr Urdd yn ŵyl deithiol sy'n cael ei chynnal mewn lleoliad gwahanol bob blwyddyn. Yn 2018, rhanbarth Brycheiniog a

	Maesyfed oedd cartref yr Eisteddfod, ac yn 2019, bydd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd.
Erthygl ar Inform	I'w chyhoeddi ar 27 Mai 2019. Ydych chi erioed wedi bod i Eisteddfod yr Urdd? Ydych chi'n gwybod beth yw hi? Eisteddfod yr Urdd yw un o wyliau teithiol ieuencid mwyaf Ewrop, sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae'r Eisteddfod yn ŵyl Gymraeg gystadleuol, lle mae dros 15,000 o blant a phobl ifainc dan 25 oed yn cystadlu yn ystod yr wythnos mewn cystadlaethau amrywiol, o ganu, dawnio a pherfformio i gelfyddyd, chwaraeon a choginio. Maen nhw wedi ennill eu lle i gystadlu yn yr ŵyl yn dilyn eisteddfodau cylch a rhanbarthol sy'n cael eu cynnal yn ystod misoedd y gwanwyn cyn yr Eisteddfod – mae hyn yn golygu eu bod nhw wedi dod i'r brig yn erbyn tua 40,000 o gystadleuwyr ledled Cymru. Mae Eisteddfod yr Urdd yn digwydd ym Mae Caerdydd yr wythnos yma, 27 Mai 2018 – 1 Mehefin 2018. Mae'n achlysur wythnos o hyd, sy'n dathlu ein diwylliant Cymraeg. Mae'n ddiwrnod perffaith i chi a'r teulu. Beth am roi cynnig arni eleni? Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am yr achlysur, ei leoliad ac unrhyw beth arall perthnasol ar wefan Eisteddfod yr Urdd yma. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n siarad Cymraeg – mae'r achlysur yn agored i bawb, does dim ots pa iaith rydych chi'n ei siarad. Ewch i'w fwynhau! Cofiwch edrych ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol er mwyn gweld ein negeseuon yn dymuno 'pob lwc' i'n disgyblion. <u>GWIRIO POB DARN GYDAG ADRAN Y WASG YN YR URDD</u>
Cynnwys ar gyfer y Cyfryngau cymdeithasol – Twitter a Facebook	<i>Cyhoeddi negeseuon yn ystod wythnos yr ŵyl – 27 Mai 2019 – 1 Mehefin 2019</i> 1) Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf mor falch o'r cannoedd o ddisgyblion a fydd yn cynrychioli ein hardal yn @EisteddfodUrdd yr wythnos hon. Byddwn ni'n dilyn eich cystadlaethau ac yn trydar am eich llwyddiannau. Pob lwc i bawb! <cynnwys llun 'pob lwc' generig>

	2) Dyma Laura, dysgwr Cymraeg, sy'n dod o Grenada yn wreiddiol. Mae hi'n mynychu'r grŵp #Cymraeg i Blant yng Nghas-gwent gyda'i mab, Judah, ac yn gobeithio ei anfon i ysgol Gymraeg pan fydd e'n hŷn. Dyma ei stori. Am ragor o wybodaeth am weithgareddau lleol ewch i – https://www.facebook.com/cibrct/?fref=ts 3) Ydych chi wedi ystyried addysg Gymraeg i'ch plentyn? Trwy ddewis addysg Gymraeg, byddwch chi'n rhoi sgil bywyd ychwanegol iddo – y gallu i gyfathrebu mewn dwy iaith, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Am ragor o wybodaeth, ewch i http://cymraeg.llyw.cymru/learning/schools/children-ages-4-11/?lang=cy #Cymraeg https://www.youtube.com/watch?v=BSyxrYgxjI0 4) Ydych chi'n ystyried yr opsiynau ysgol uwchradd sydd ar gael i'ch plentyn ar ôl iddyn nhw adael addysg gynradd Gymraeg? Mae sgiliau dwyieithog plant yn datblygu yn fwy os ydyn nhw'n cael eu defnyddio bob dydd. Am ragor o wybodaeth ar ddewis addysg Gymraeg, ewch i: https://bit.ly/2SCMWB5 #Cymraeg https://www.youtube.com/watch?v=szkg9xexFy8 5) Trefnu negeseuon pob lwc i ysgolion ar ôl ymateb i'r e-bost y cyfeirir ato isod yn adran 'arall'. Pob lwc i @TAGSCHOOL heddiw wrth gystadlu yn @EisteddfodUrdd ym Mae Caerdydd. Dyma ddymuno'r gorau i chi – diolch am fod yn llysgenhadon gwyh i'n Bwrdeistref Sirol. <cynnwys unrhyw ddelwedd sy wedi'i darparu gan yr ysgol/llun 'pob lwc' generig> 6) Aildrydar negeseuon ysgolion (er bydd neges uniongyrchol yn well ar gyfer yr ymgyrch).
Cynnwys E-bost i RCTStaffUpdates	E-bost ar 27 Mai 2019 Yr un peth â'r erthygl Inform.
Arall	1) E-bostio ysgolion bythefnos cyn i'r cystadlu ddechrau i ofyn am fanylion ynglŷn â'r cystadlaethau y maen nhw'n cystadlu ynddyn nhw. <i>Shw'mae Ysgolion RhCT,</i> <i>Eleni mae'r Cyngor wedi penderfynu dathlu cyfraniad anhygoel ein hysgolion i Eisteddfod yr Urdd – dyma fydd un o ymgyrchoedd</i>

	<i>allweddol y Cyngor er mwyn dathlu'n diwylliant Cymreig a Chymraeg.</i> <i>O ganlyniad i hynny, rydyn ni'n awyddus i glywed gennych chi ynglŷn â pha gystadlaethau mae eich disgyblion yn cymryd rhan ynddyn nhw, ac ar ba ddiwrnodau y byddan nhw'n cystadlu, fel bo modd inni ddymuno pob lwc iddyn nhw, a dilyn eu cystadlaethau.</i> <i>Os oes gyda chi unrhyw luniau o'r rhai sy'n cystadlu rydych chi'n fodlon i ni eu defnyddio (gyda'r caniatâd angenrheidiol), anfonwch nhw aton ni. Cofiwch gadw llygaid ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol @CyngorRhCT / @RCTCouncil a facebook/RCTCouncil yn ystod yr wythnos i weld negeseuon yn cefnogi'ch disgyblion.</i> <i>Anfonwch eich rhestr o gystadlaethau a diwrnodau cystadlu at Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk erbyn xx/xx/xxxx.</i> 2) Dod o hyd i lun 'Pob lwc' generig. 3) Newid y logo corfforaethol? 4) Cysylltu â Pherchenogion Cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol a gofyn iddyn nhw bostio negeseuon hefyd. 5) Gwirio'r testun gydag Adran y Wasg yn yr Urdd.
--	---

Ymgyrchoedd 2018–2019	
Cyfnod	Chwarter 2
Dyddiad	16 Medi 2019
Enw'r Ymgyrch	Diwrnod Owain Glyndŵr
Gwybodaeth Gefndirol	Owain Glyndŵr oedd y person olaf o Gymru i arddel y teitl 'Tywysog Cymru'.
Erthygl ar Inform	I'w chyhoeddi ar 16 Medi Ydych chi erioed wedi clywed am Owain Glyndŵr? Wel, heddiw yw Diwrnod Owain Glyndŵr – ac rydyn ni'n dathlu ei fywyd! Owain Glyndŵr oedd y person olaf o Gymru i arddel y teitl

	'Tywysog Cymru'. Cafodd ei eni tua 1359. Roedd yn arglwydd Cymreig, a dechreuodd rhyfel hir a ffyrnig dros annibyniaeth i Gymru wrth Loegr, ond ni fu ei ymdrechion yn llwyddiannus yn y pendraw. Ar 16 Medi 1400, dechreuodd Glyndŵr y 'Gwrthryfel Cymreig' yn erbyn rheolaeth Harri IV, Brenin Lloegr. Cafodd Glyndŵr ei yrru o'i gadarnleoedd olaf ym 1409 ond ni lwyddodd unrhyw un i'w garcharu. Anwybyddodd Glyndŵr y pardwn a gynigiwyd iddo gan ei elyn pennaf, brenin newydd Lloegr, Harri V. Er gwaetha'r gwobrau mawr oedd ar gael, chafodd Glyndŵr byth mo'i fradychu i'r Saeson. Cafodd ei farwolaeth ei gofnodi ym 1415. Bu'n gyfreithiwr uchel ei barch a astudiodd yn Ysbytai'r Brawdlys yn Llundain. Mae hyd yn oed sôn amdano yn un o ddramâu Shakespeare, sef Henry IV. Hoffech chi ddarllen rhagor? Beth am ymweld ag un o'n llyfrgelloedd a mynnu copi o un o'r llyfrau sy'n adrodd ei hanes?
Cynnwys ar gyfer y Cyfryngau cymdeithasol – Twitter a Facebook	1) Wyddech chi mai heddiw yw Diwrnod Owain Glyndŵr? Fe oedd y person olaf o Gymru i arddel y teitl 'Tywysog Cymru'. Rydyn ni'n hedfan ei faner yng Nghlydach heddiw, i gofio amdano. Rhagor o wybodaeth? Beth am fynd i un o'n llyfrgelloedd lle mae llyfrau sy'n adrodd ei hanes. <CYNNWYS DELWEDD O'R FANER / INSERT IMAGE OF FLAG> 2) Rydyn ni'n hedfan baner Owain Glyndŵr heddiw yng Nghlydach. Fe oedd y person olaf o Gymru i arddel y teitl 'Tywysog Cymru' a bu farw tua 1415. Mae gan ein llyfrgelloedd ddigonedd o lyfrau sy'n adrodd ei hanes. Beth am alw heibio'ch llyfrgell leol neu chwilio ar-lein yma? <CYNNWYS DELWEDD O'R FANER / INSERT IMAGE OF FLAG>
Cynnwys E-bost i RCTStaffUpdates	I'w gyhoeddi ar 16 Medi. Yr un peth â'r erthygl Inform.
Arall	1) Prynu baner Owain Glyndŵr i'w hedfan ym Mhencadlys y Cyngor. 2) Cais am ganiatâd i hedfan y faner. 3) E-bostio Llyfrgelloedd RhCT cyn y dyddiad i'w gwneud yn ymwybodol ohono. 4) Gofyn i'r llyfrgelloedd a fydden nhw'n trefnu 'sgwrs hanes' ar Owain Glyndŵr?? 5) Newid logos corfforaethol? 6) Cysylltu â pherchenogion cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol a gofyn iddyn nhw bostio negeseuon hefyd?

	7) Gwirio gydag ysgolion beth yw eu trefniadau presennol.
--	---

Ymgyrchoedd 2018–2019	
Cyfnod	Chwarter 3
Dyddiad	15 Hydref 2019
Enw'r Ymgyrch	Diwrnod Shw'mae
Gwybodaeth Gefndirol	Diwrnod i gychwyn pob sgwrs gyda Shw'mae.
Erthygl ar Inform	I'w chyhoeddi ar 15 Hydref 2019 Shw'mae! Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dathlu Diwrnod Cenedlaethol Shw'mae/Su'mae heddiw! Er 2013, mae pobl wedi dathlu Diwrnod Shw'mae ar 15 Hydref – mae'n gyfle i ddathlu'r Gymraeg yn ein cymunedau, ein gweithleoedd a'n hysgolion! Prif nod y diwrnod yw dechrau pob sgwrs gyda 'Shw'mae' neu 'Su'mae'! Wnewch chi roi cynnig arni hefyd? Does dim ots beth yw eich gallu ieithyddol – p'un a ydych chi'n ddi-Gymraeg, yn dysgu'r iaith neu'n ei siarad hi'n rhugl – dyma ddiwrnod gallwn ni i gyd ei ddathlu gyda'n gilydd. Os oes gyda chi ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg yn y gweithle, cysylltwch â Thiwtor y Gymraeg, Nushin sy'n gallu cynnig hyfforddiant. Mae modd i chi gysylltu â Nushin drwy e-bost: Nushin.chavoshi-nejad@rctcbc.gov.uk Mae rhagor o wybodaeth am Ddiwrnod Shw'mae ar gael ar-lein: www.shwmae.cymru
Cynnwys ar gyfer y Cyfryngau cymdeithasol – Twitter a Facebook	I'w gyhoeddi ar 15 Hydref. 1) Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dathlu 'Diwrnod @ShwmaeSumae' heddiw! Cofiwch ddechrau pob sgwrs gyda Shw'mae! Os ydych chi eisiau dechrau dysgu Cymraeg ewch i https://learnwelsh.cymru/ #ShwmaeSumae <MEWNOSOD DELWEDD/INSERT IMAGE>

	2) Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dechrau pob sgwrs gyda 'Shw'mae' heddiw, i ddathlu Diwrnod Shw'mae – wnewch chi roi cynnig arni hefyd? Ydych chi erioed wedi meddwl am roi cynnig ar ddysgu Cymraeg – mae rhagor o wybodaeth yma https://learnwelsh.cymru/ <MEWNOSOD DELWEDD / INSERT IMAGE> 3) Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dathlu Diwrnod Shw'mae heddiw – ydych chi erioed wedi meddwl am ddysgu Cymraeg? Mae gwybodaeth ar gael trwy @learncymraegMG am ddosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned. 4) Mae Canolfan Gartholwg Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dathlu Diwrnod Shw'mae heddiw gyda digwyddiad xx. Beth am alw heibio i ddweud 'Shw'mae'? Tra eich bod chi yno cewch chi ddod o hyd i wybodaeth am holl gyrsiau addysg i oedolion y ganolfan hefyd. Mae'r wybodaeth ar gael ar-lein hefyd http://www.gartholwg.org/
Cynnwys E-bost i RCTStaffUpdates	I'w gyhoeddi ar 15 Hydref Yr un peth â'r erthygl inform uchod.
Arall	1) Dod o hyd i ddelweddau ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol/Erthygl Inform. 2) Gwirio gyda Gartholwg eu bod nhw'n cynnal y digwyddiad eto. 3) Darparu bathodynau/adnoddau. 4) E-bostio'r Ganolfan Gyswllt yn uniongyrchol i ofyn i staff ateb trwy ddweud 'Shw'mae'. 5) Chwarae cerddoriaeth Gymraeg mewn llyfrgelloedd/ar linell ffôn y ganolfan gyswllt? 6) E-bostio perchnogion cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol a gofyn iddyn nhw bostio hefyd. 7) Gofyn i Nushin ddod o hyd i berson yn Rhondda Cynon Taf sydd wedi dysgu Cymraeg a gofyn iddyn nhw ysgrifennu erthygl? 8) Newid logos corfforaethol?

Ymgyrchoedd 2018–2019	
Cyfnod	Chwarter 4
Dyddiad	1 Mawrth 2019
Enw'r Ymgyrch	Dydd Gŵyl Dewi

Gwybodaeth Gefndirol	Dydd Gŵyl Dewi yw'r diwrnod lle y dathlwn Dewi Sant, nawdd sant Cymru. Mae'n digwydd ar 1 Mawrth, dyddiad marwolaeth Dewi Sant yn 589 AD.
Erthygl ar Inform	I'w chyhoeddi ar 1 Mawrth. Heddiw, rydyn ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Ganed Dewi Sant ar glogwyni Sir Benfro yn ystod storm ffyrnig. Yn ôl y chwedl, roedd e'n fab i Sant (a gaiff ei alw hefyd yn Sanctus), Brenin Ceredigion, a lleian o'r enw Non (Nonnita). Mae haneswyr wedi dadlau, fodd bynnag, ei fod yn ddisgynnydd i deuluoedd brenhinol Cymru. Roedd rhai pobl o'r farn ei fod yn ddisgynnydd i'r Brenin Arthur. Mae yna lawer o straeon amdano, fel ei hanes yn atgyfodi'r meirw neu ffynhonnau dŵr yn ymddangos er mwyn dathlu cerrig milltir yn ei fywyd. Pam ydyn ni'n gwisgo cennin? Yn ôl hen chwedl, bu brwydr lle'r oedd y Cymry'n ceisio amddiffyn eu tir rhag y goresgynwyr Sacsonaidd. Roedd y Cymry'n colli, ac roedd y ffaith fod y ddwy ochr yn gwisgo dillad tebyg yn gwneud pethau'n ddryslyd. Sylwodd mynach fod hyn yn broblem, felly dywedodd: "Gymry, rhaid i chi wisgo rhywbeth er mwyn i chi allu dweud yn well pwy yw'r Sacsoniaid a phwy yw'r Cymry." Tynnodd y mynach genhinen o'r ddaear ac ychwanegodd: "Dewch, gwisgwch y rhain er mwyn i chi wybod bod unrhyw filwr sydd ddim yn gwisgo cenhinen yn elyn i chi." Roedden nhw'n meddwl bod hyn yn rhyfedd, ond cytunon nhw i'w wneud e. Yn fuan roedd gan bob milwr genhinen ar ei helmed. Enillodd y Cymry y frwydr. A phwy oedd y mynach? Dewi! Heddiw, rydyn ni'n hedfan y Faner yng Nghlydach, ac ar y Cyfryngau Cymdeithasol rydyn ni'n yn gofyn i'n cymunedau sut y byddan nhw'n dathlu.
Cynnwys ar gyfer y Cyfryngau cymdeithasol – Twitter a Facebook	1) Rydyn ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi heddiw ac mae'r faner eisoes yn hedfan ym mhencadlys y Cyngor. Sut fyddwch chi'n dathlu? Bwyta pice ar y maen? Gwisgo cenhinen neu genhinen Bedr? Anfonwch eich lluniau aton ni! 2) Rydyn ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi heddiw ac mae'r faner eisoes yn hedfan ym mhencadlys y Cyngor. Mae chwedl yn dweud bod y Cymry wedi gwisgo cennin mewn brwydr, ar ôl i Dewi

	ddweud wrthyn nhw am wneud hyn er mwyn eu gwahaniaethu eu hunain wrth y gelyn. Enillodd y Cymry y frwydr! 3) Aildrydar negeseuon gan ysgolion lleol
Cynnwys E-bost i RCTStaffUpdates	I'w gyhoeddi ar 1 Mawrth. Yn un peth â'r erthygl Inform uchod
Arall	1) Prynu Baner Dewi Sant. 2) Cais am ganiatâd i hedfan y faner. 3) Dod o hyd i ddelweddau ar gyfer negeseuon. 4) E-bostio perchnogion cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol a gofyn iddyn nhw bostio hefyd. 5) Gwirio pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal ac ychwanegu dolenni i bostiadau. 6) Newid logos corfforaethol? 7) Gwirio gyda CADW pa lefydd sy'n cynnig mynediad am ddim ar Ddydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo'r rhain/hyrwyddo Parc Treftadaeth Cwm Rhondda?

		Wedi'i chwblhau	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf
Enw'r Ymgyrch	Tasg							
Yr Urdd	Gofyn am aildylunio'r logo corfforaethol		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019					
Yr Urdd	Dod o hyd i logo 'Pob Lwc', neu ofyn i un gael ei ddylunio (ar gyfer Twitter a Facebook)		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019					
Yr Urdd	Gofyn am ddelwedd pennawd ar Inform		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019					
Yr Urdd	Gadael i @Urdd wybod am ein hymgyrch		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019					
Yr Urdd	Gofyn am ddelwedd gan Theatr y Parc a'r Dâr wedi'i goleuo gyda lliwiau Mr Urdd			Wythnos yn Dechrau 25/03/2019				
Yr Urdd	Cysylltu â'r Urdd i ofyn am faner i'w chodi yng Nghlydach			Wythnos yn Dechrau 25/03/2019				
Yr Urdd	Gadael i @Urdd wybod am ein hymgyrch				Wythnos yn Dechrau 08/04/2019			
Yr Urdd	E-bostio'r ysgolion i ofyn am wybodaeth				Wythnos yn Dechrau 08/04/2019			
Yr Urdd	Paratoi llinell amser o negeseuon Twitter a Facebook					Wythnos yn Dechrau 06/05/2019		
Yr Urdd	Paratoi testun ar gyfer Inform ac e-bost 'Global'					Wythnos yn Dechrau 06/05/2019		
Yr Urdd	Anfon i'w cyfieithu					Wythnos yn Dechrau 13/05/2019		
Yr Urdd	Gofyn i'r faner gael ei chodi er mwyn tynnu'i llun					Wythnos yn Dechrau 13/05/2019		
Yr Urdd	Anfon llinell amser o negeseuon Twitter a Facebook i garfan y cyfryngau (Cymraeg a Saesneg)					Wythnos yn Dechrau 13/05/2019		
Yr Urdd	Anfon e-bost at berchnogion cynnwys - gofyn iddyn nhw rannu/aildrydar o gyfrif corfforaethol					Wythnos yn Dechrau 20/05/2019		
Yr Urdd	Anfon e-bost at y rheiny ar y rhestr ddsbarthu o siaradwyr Cymraeg i godi ymwybyddiaeth.					Wythnos yn Dechrau 20/05/2019		
Yr Urdd	Anfon testun Inform ac e-bost 'Global' i garfan y Cabinet er mwyn creu amserlen ar gyfer eu cyhoeddi					Wythnos yn Dechrau 20/05/2019		
Yr Urdd	Codi baner yr Urdd yng Nghlydach					9.00am 24 Mai		
Yr Urdd	Cyhoeddi erthygl Inform / delwedd pennawd					9.00am 27 Mai		
Yr Urdd	Anfon e-bost 'Global' i'r holl staff					9.00am 27 Mai		
Yr Urdd	Diweddaru logos Twitter a Facebook gyda'r fersiwn newydd					9.00am 27 Mai		
Yr Urdd	Cyhoeddi negeseuon ar Twitter a Facebook					27 Mai – 1 Mehefin	27 Mai – 1 Mehefin	
Yr Urdd	Tynnu baner yr Urdd i lawr					3 Mehefin 2019		
Yr Urdd	E-bostio ysgolion i'w llongyfarch					4 Mehefin 2019		
Yr Urdd	E-bostio perchnogion cynnwys/carfan y wasg a swyddogion eraill i ddiolch iddyn nhw am eu cefnogaeth					4 Mehefin 2019		

Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr Ionawr Chwefror Mawrth

		Wedi'i chwblhau	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth
Enw'r Ymgyrch	Tasg															
Owain Glyndŵr	Gofyn am ailddylunio'r logo corfforaethol		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019													
Owain Glyndŵr	Gofyn am ddelwedd pennawd ar Inform		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019													
Owain Glyndŵr	Trefnu cyfarfod cychwynnol gyda Llyfrgelloedd ynghylch: Sgwrs am Hanes Owain Glyndŵr					Wythnos yn Dechrau 20/05/2019										
Owain Glyndŵr	Cadarnhau'r trefniadau gyda'r Llyfrgelloedd						Wythnos yn Dechrau 10/06/2019									
Owain Glyndŵr	Gofyn i'r Llyfrgelloedd lunio poster.						Wythnos yn Dechrau 10/06/2019									
Owain Glyndŵr	Rhannu'r poster gyda Chanolfan Gartholwg, Menter Iaith, ac ati						Wythnos yn Dechrau 17/06/2019									
Owain Glyndŵr	Paratoi llinell amser o negeseuon Twitter a Facebook							Wythnos yn Dechrau 15/07/2019								
Owain Glyndŵr	Paratoi testun ar gyfer Inform ac e-bost 'Global'							Wythnos yn Dechrau 15/07/2019								
Owain Glyndŵr	Anfon i'w cyfieithu							Wythnos yn Dechrau 22/07/2019								
Owain Glyndŵr	Gofyn i'r faner gael ei chodi er mwyn tynnu'i llun					Wythnos yn Dechrau 13/05/2019										
Owain Glyndŵr	Anfon llinell amser o negeseuon Twitter a Facebook i garfan y cyfryngau (Cymraeg a Saesneg)									Wythnos yn Dechrau 02/09/2019						
Owain Glyndŵr	Anfon e-bost at berchnogion cynnwys - gofyn iddyn nhw rannu/aildrydar o gyfrif corfforaethol									Wythnos yn Dechrau 09/092019						
Owain Glyndŵr	Anfon e-bost at y rheiny ar y rhestr ddosbarthu o siaradwyr Cymraeg i godi ymwybyddiaeth.									Wythnos yn Dechrau 09/09/2019						
Owain Glyndŵr	Anfon testun Inform ac e-bost 'Global' i garfan y Cabinet er mwyn creu amserlen ar gyfer eu cyhoeddi									Wythnos yn Dechrau 09/09/2019						
Owain Glyndŵr	Codi'r faner yng Nghlydach									9.00am 16 Medi						
Owain Glyndŵr	Cyhoeddi erthygl Inform / delwedd pennawd									9.00am 16 Medi						
Owain Glyndŵr	Anfon e-bost 'Global' i'r holl staff									9.00am 16 Medi						
Owain Glyndŵr	Diweddarau logos Twitter a Facebook gyda'r fersiwn newydd									9.00am 16 Medi						
Owain Glyndŵr	Cyhoeddi negeseuon ar Twitter a Facebook									9.00am 16 Medi						
Owain Glyndŵr	Tynnu'r faner i lawr									17 Medi						
Owain Glyndŵr	E-bostio perchnogion cynnwys/carfan y wasg a swyddogion eraill i ddiolch iddyn nhw am eu cefnogaeth									17 Medi						

		Wedi'i chwblhau	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref
Enw'r Ymgyrch	Tasg										
Diwrnod Shw'mae	Gofyn am ailddylunio'r logo corfforaethol		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019								
Diwrnod Shw'mae	Dod o hyd i ddelwedd generig (ar gyfer Twitter a Facebook)		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019								
Diwrnod Shw'mae	Gofyn am ddelwedd pennawd ar Inform		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019								
Diwrnod Shw'mae	Gofyn am ffrâm hun-lun		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019								
Diwrnod Shw'mae	Dod o hyd i faner i'w chodi yng Nghlydach		Wythnos yn Dechrau 04/02/2019								
Diwrnod Shw'mae	Trefnu cyfarfod gyda Chanolfan Gartholwg ynghylch: Achlysuron							Wythnos yn Dechrau 01/07/2019			
Diwrnod Shw'mae	Cadarnhau'r achlysur yng Nghanolfan Gartholwg							Wythnos yn Dechrau 22/07/2019			
Diwrnod Shw'mae	Gofyn i Nushin drefnu llun gyda'i dysgwyr a'r ffrâm hun-lun							Wythnos yn Dechrau 22/07/2019			
Diwrnod Shw'mae	Gofyn i Nushin gael dysgwr i ysgrifennu erthygl ar gyfer Inform							Wythnos yn Dechrau 22/07/2019			
Diwrnod Shw'mae	Paratoi llinell amser o negeseuon Twitter a Facebook								Wythnos yn Dechrau 05/08/2019		
Diwrnod Shw'mae	Paratoi testun ar gyfer Inform ac e-bost 'Global'								Wythnos yn Dechrau 05/08/2019		
Diwrnod Shw'mae	Anfon i'w cyfieithu								Wythnos yn Dechrau 12/08/2019		
Diwrnod Shw'mae	Gofyn i'r faner gael ei chodi er mwyn tynnu'i llun					Wythnos yn Dechrau 13/05/2019					
Diwrnod Shw'mae	Anfon llinell amser o negeseuon Twitter a Facebook i garfan y cyfryngau (Cymraeg a Saesneg)									Wythnos yn Dechrau 02/09/2019	
Diwrnod Shw'mae	Anfon e-bost at berchnogion cynnwys - gofyn iddyn nhw rannu/aildrydar o gyfrif corfforaethol										Wythnos yn Dechrau 07/10/2019
Diwrnod Shw'mae	Anfon e-bost at y rheiny ar y rhestr ddosbarthu o siaradwyr Cymraeg i godi ymwybyddiaeth.										Wythnos yn Dechrau 07/10/2019
Diwrnod Shw'mae	Anfon testun Inform ac e-bost 'Global' i garfan y Cabinet er mwyn creu amserlen ar gyfer eu cyhoeddi										Wythnos yn Dechrau 07/10/2019
Diwrnod Shw'mae	Codi Baner Shw'mae yng Nghlydach										9.00am - 15 Hydref 2019
Diwrnod Shw'mae	Cyhoeddi erthygl Inform / delwedd pennawd										9.00am - 15 Hydref 2019
Diwrnod Shw'mae	Anfon e-bost 'Global' i'r holl staff										9.00am - 15 Hydref 2019
Diwrnod Shw'mae	Diweddaru logos Twitter a Facebook gyda'r fersiwn newydd										9.00am - 15 Hydref 2019
Diwrnod Shw'mae	Cyhoeddi negeseuon ar Twitter a Facebook										9.00am - 15 Hydref 2019
Diwrnod Shw'mae	Tynnu baner Shw'mae i lawr										16 Hydref
Diwrnod Shw'mae	E-bostio perchnogion cynnwys/carfan y wasg a swyddogion eraill i ddiolch iddyn nhw am eu cefnogaeth										16 Hydref

[illegible]




Urdd



RHONDDA CYNON TAF



Wedi clywed am
Eisteddfod yr Urdd?



Do you know what
Eisteddfod yr Urdd is?

#Urdd


@EisteddfodUrdd

#CyngorRhCT

@CyngorRhCT

#Urdd @EisteddfodUrdd

#CyngorRhCT @CyngorRhCT



Eisteddfod yr Urdd



Ewch Amdani



RHONDDA CYNON TAF



Pob Hwyl



RHONDDA CYNON TAF



Pob Lwc



RHONDDA CYNON TAF




RHONDDA CYNON TAF



Diwrnod
Owain Glyndwr
16 Medi | September Day





Diwrnod **Owain Glyndŵr** Day
16 Medi | September #OwainGlyndŵr





RHONDDA CYNON TAF

Rho gynnig arni
Give it a GO!



#DiwrnodShwmaeRhCT
#ShwmaeDayRCT

Diwrnod

SHWMAE
SU'MAE
Day

Rho gynnig arni
Give it a go

#DiwrnodShwmaeRhCT

#ShwmaeDayRCT



RHONDDA CYNON TAF

Shwmae



RHONDDA CYNON TAF

Su'mae



RHONDDA CYNON TAF

A wide, horizontal maroon bar with a pointed, downward-pointing center, resembling a stylized arrow or a decorative underline.

Dydd Gŵyl Dewi

🌸 Hapus 🌸



🌸 Happy 🌸

St. David's Day



Dydd Gŵyl Dewi Hapus
Happy St. David's Day

#DyddGŵylDewi





How will you
be celebrating
St. David's Day?

Send us your photos

#DyddGŵylDewi @RCTCouncil



Sut wyt ti am ddathlu
Dydd Gŵyl Dewi?

Postiwch eich lluniau

#DyddGŵylDewi @CyngorRhCT